

No.

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.C. Bird (Cadeirydd); Cynghorydd B.T. Gray (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, R.M. Birch, C.A. Cave, P. Drake, V.P. Driscoll, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, G.C. Kemp, A.C. Parker, L.O. Rowlands, E. Williams, M.R. Wilson a M. Wright.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett, A.D. Hampton, R. Nugent-Finn and A.R. Robertson.

Enw'r Llefarydd	Rhif Cais Cynllunio a Lleoliad	Rheswm dros Siarad
Cynghorydd Andrew Robertson	2021/01086/FUL - Tŷ'r Waun, Cross Common Road, Dinas Powys	Aelod Ward Lleol
Mr Powys Jones	2021/01086/FUL - Tŷ'r Waun, Cross Common Road, Dinas Powys	Yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
Mr Will Vaulkes	2021/01086/FUL - Tŷ'r Waun, Cross Common Road, Dinas Powys	Yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
Mr Robert Chichester	2019/00503/FUL - Dunraven Court, Beach Road, Southerndown	Yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
Mr Cenydd Thomas	2021/00368/FUL - Silverdene, Llan-faes	Yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
Cynghorydd Rachel Nugent-Finn	2021/01192/FUL - 1 Rectory Close, Y Barri	Aelod Ward Lleol

568 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

No.

569 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr S.T. Edwards and N.C. Thomas.

570 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref, 2021 fel cofnod cywir yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd A.D. Hampton hefyd yn bresennol.

571 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd L.O. Rowlands fuddiant mewn perthynas â chais 2021/01105/RG3 - Depo Court Road, Barry Road, Y Barri. Natur y diddordeb oedd bod y Cynghorydd Rowlands yn byw yn agos at safle'r cais, felly datganodd fuddiant personol a thynnu'n ôl o'r cyfarfod ac ni chymerodd ran yn y ddadl na'r bleidlais.

Datganodd y Cynghorydd M.R. Wilson fuddiant mewn perthynas â chais 2021/01086/FUL - Tŷ'r Waun, Cross Common Road, Dinas Powys. Natur y diddordeb oedd bod y Cynghorydd Wilson yn ddeiliad tocyn tymor Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd. Roedd natur y diddordeb yn golygu bod y Cynghorydd Wilson wedi aros yn y cyfarfod, ond ni chymerodd ran yn y ddadl na'r bleidlais.

572 CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PAC) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Dylid nodi'r ceisiadau rheoliadau adeiladau a gytunwyd, fel y'u rhestrir yn Adran A o'r adroddiad.
- (2) Dylid nodi'r ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y'u rhestrir yn Adran B o'r adroddiad.
- (3) Dylid cyflwyno Hysbysiadau o dan y Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2000, fel y'u rhestrir yn Adran C o'r adroddiad.
- (4) Bod gweithrediad Adran 32 Deddf Adeiladu 1984 yn cael ei weithredu a chyflwyno Rhybuddion fel y'u rhestrir yn Adran E yr adroddiad.

No.

573 CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH
ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PAC) –

PENDERFYNWYD – BOD y ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 12 trwy 30, o dan y pwerau wedi'u nodi uchod.

574 APELIADAU (PAC) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Bod nodi na dderbyniwyd unrhyw Apeliadau ar adeg cynnal y cyfarfod.
- (2) BYDD nodi na dderbyniwyd unrhyw Apeliadau Gorfodi ar adeg cynnal y cyfarfod.
- (3) BOD nodi na dderbyniwyd unrhyw benderfyniadau Apêl Cynllunio ar adeg cynnal y cyfarfod..
- (4) BYDD nodi na dderbyniwyd unrhyw Benderfyniadau Apeliadau Gorfodi ar adeg cynnal y cyfarfod.
- (5) Nodi'r ystadegau sy'n ymwneud â'r apeliadau am y cyfnod Ebrill 2021 – Mawrth 2022 fel y manylir yn Adran E yr adroddiad.

575 COED (PAC) –

- (i) Rhestr Ddirprwyedig

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 34 a 37, fel y penderfynir gan y Pennaeth Adfywio a Chynllunio o dan bwerau dirprwyedig.

576 CEISIAD CYNLLUNIO (PAC) –

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y penderfynir ar y ceisiadau a ganlyn fel y nodir a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

2019/00503/FUL Derbyniwyd ar 14 Ebrill 2020

(p37)

YMGEISYDD: Propdev (UK) Ltd c/o Agent

ASIANT: Mrs. Arran Dallimore C2J Architects & Town Planners, Unit 1A,
Compass Business Park, Pacific Road, Ocean Park, Cardiff, CF24 5HL

Dunraven Court, Beach Road, Southerndown

No.

Dymchwel rhan arfaethedig o adeiladau presennol, estyn, newid a throsi eiddo i ffurfio 20 o fflatiau 2 a 3 gwely hunangynhwysol gydag addasiadau cysylltiedig i fynediad cerbydau a darparu cyfleusterau parcio, beicio, sbwriel ac amwynder ar y safle.

PENDERFYNWYD - BOD yn ddarostyngedig i'r person (au) perthnasol ymrwymo i Gytundeb Cyfreithiol Adran 106 neu ymrwymo i gynnwys y rhwymedigaethau cynllunio angenrheidiol a ganlyn:

- Darparu mecanwaith i sicrhau, pe na bai'r datblygiad yn cael ei gwblhau cyn pen 24 mis ar ôl cychwyn, bod adolygiad hyfywedd datblygu yn cael ei sbarduno, a allai wedyn ofyn am ddarparu cyfraniadau fel a ganlyn:
- £ 285,807 tuag at ddarpariaeth addysg i ddiwallu'r angen sy'n deillio o'r datblygiad.
- £ 651,108 tuag at ddarpariaeth tai fforddiadwy.
- £ 46,000 ar gyfer gwelliannau trafniadaeth gynaliadwy yn yr ardal, yn ymwneud â mynediad i'r safle a chyfleusterau lleol, i wasanaethu deiliaid y datblygiad.
- £ 25,200 tuag at gyfleusterau cymunedol i wasanaethu deiliaid y datblygiad.
- £ 18,000 tuag at ddarpariaeth / gwelliannau man agored cyhoeddus yn yr ardal, i wasanaethu deiliaid y datblygiad.
- 1% o gostau adeiladu celf gyhoeddus.
- Y ffioedd cyfreithiol a gweithredu / monitro ar gyfer cytundeb A106.

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

2021/00368/FUL Derbyniwyd on 20 Gorffennaf 2021

(p64)

YMGEISYDD: C Thomas Silverdene, Llanmaes, Llantwit Major, CF61 2XR

ASIANT: Mr Sean Taylor 36, Clos Nant Mwlan, Pontprennau, Cardiff, CF23 8NA

Silverdene, Llanmaes

Trosi tir gwag yn ardd breswyl

CAMAU A WRTHODWYD A CHAMAU GORFODI A AWDURDODWYD

PENDERFYNWYD -

(1) Gwrthod y cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd y tir.

No.

- (2) Os bydd y Pwyllgor yn cytuno i'r rheswm canlynol dros wrthod, dylid rhoi awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i gyflwyno Hysbysiad Gorfodi o dan Adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) mewn perthynas â'r tir y gwnaed cais amdano'n wreiddiol o dan gais 2020/00990/FUL, ond heb gynnwys y darn o dir y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer wedyn, i wneud y canlynol yn ofynnol:
- (i) Rhoi'r gorau i ddefnyddio'r tir at ddefnydd preswyl,
 - (ii) Cael gwared ar y patio, carreg, borderi blodau, strwythurau pren a'r holl ddeunyddiau adeiladu, strwythurau domestig, a pharaffernalia eraill o'r tir.
 - (iii) Adfer y tir i'w hen gyflwr fel cae amaethyddol drwy lefelu'r tir, gosod uwchbridd ar ei ben a hau hadau glaswellt.
- (2) Ceisio awdurdod, os na chydymffurfir â'r Hysbysiad, i gymryd unrhyw achos cyfreithiol sy'n ofynnol.

Rheswm dros y penderfyniadau

1. Oherwydd ei ddyfnder a'i arwynebedd, y cyd-destun gwledig/amaethyddol, ac ymddangosiad a chymeriad agored y tir cyfagos, mae newid defnydd y tir (ynghyd â'r nodweddion domestig cysylltiedig a'r llociau) wedi arwain at darfu'n weledol ar gefn gwlad, sy'n niweidiol i'w ymddangosiad a'i gymeriad. Ystyrir bod yr effaith weledol a'r effaith drefoli ar gefn gwlad yn amlwg yn niweidiol i ymddangosiad a chymeriad yr ardal, yn gwrthdaro â nodau a meini prawf Polisiâu MD1 (maen prawf 1) ac MD2 (meini prawf 1 a 2) o'r CDLI, a Pholisi DG13 o'r CCA Dylunio mewn Tirwedd, paragraffau 5.5 a 5.8.1 o NCT12 ac o ystyried y cyngor ym mharagraff 3.9, 3.14, 3.16, 3.38 4.2.24 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11).

2021/01086/FUL Derbyniwyd on 22 Gorffennaf 2021

(p79)

YMGEISYDD: Mr Will Vaulks Ty R Waun, Cross Common Road, Dinas Powys, CF64 4TP

ASIAANT: Mr Rob Ware

Ty R Waun, Cross Common Road, Dinas Powys

Dymchwel sylweddol annedd presennol a chreu annedd newydd

GWRTHODWYD

1. Yn rhinwedd graddfa, dyluniad a ffurf yr estyniadau a'r newidiadau a gynigiwyd i'r byngalo presennol, byddai'r annedd deulawr yn niweidio cymeriad y byngalo gwreiddiol yn sylweddol a byddai'n gwbl anghymesur o ran maint i'r annedd wreiddiol. At hynny, o ystyried amlygrwydd y safle o'r HTC cyfagos, ni fyddai cyflwyno annedd deulawr fawr yn lle'r byngalo presennol yn cyd-fynd â'r rhan hon o Cross Common Road gan nodi cymeriad a graddfa'r anheddau ar hyd y ffordd hon sy'n rhan o dirwedd a chymeriad gwledig yr ardal. Felly, ystyrir y cynnig yn groes i Bolisiâu MD12

No.

(Anheddau yng Nghefn Gwlad), MD1 (Lleoliad Datblygiad Newydd) ac MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg 2011-2026, Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddatblygu Preswyl a Deiliaid Tai (2018), Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, 2021) a Nodyn Cyngor Technegol 12 – Dylunio (2016).

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae'r penderfyniad i argymhell gwrthod caniatâd cynllunio wedi'i wneud yn unol ag Adran 38 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sy'n ei gwneud yn ofynnol, wrth benderfynu ar gais cynllunio, i'r penderfyniad fod yn unol â'r Cynllun Datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r Cynllun Datblygu ar gyfer yr ardal yn cynnwys Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg 2011-2026 a Chymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040.

Ystyriwyd bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ystyriwyd y dogfennau polisi morol priodol wrth benderfynu ar y cais hwn yn unol ag Adran 59 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

2021/01105/RG3 Derbyniwyd on 27 Gorffennaf 2021
(p95)

YMGEISYDD: Ms Kelly Williams 21st Century Schools Programme Manager,
Civic Offices, Holton Road, Barry, CF63 4RU

ASIAANT: Mr Nathan Slater Vale of Glamorgan Council, Dock Offices, Subway
Road, Barry, CF63 4RT

Depo Court Road, Barry Road, y Barri

RHOI caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

2021/01192/FUL Derbyniwyd on 10 Awst 2021
(p128)

YMGEISYDD: NKW Properties Wheadon c/o Agent

ASIAANT: Shaun Cuddihy Square peg, Brackendene,, Wenvoe, CF5 6BA

1, Rectory Road, y Barri

Newidiadau a gwelliannau arfaethedig a newid defnydd i eiddo amlfeddiannaeth

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

No.

Y rheswm dros y penderfyniad

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.